**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 16 Mehefin 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | F M Gordon | B Hopkins |
| L R Jones | M A Langstone | H Lawson |
| M B Lewis | S Pritchard | D W W Thomas |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Neb.

---

**4 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**5 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 12 a 20 Mai 2021 fel cofnod cywir.

**6 Cynllun Gwaith 2021/2022. (Trafodaeth)**

Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau a swyddogion i'r cyfarfod ac amlinellodd ei fod yn gobeithio y gallai'r pwyllgor adeiladu ar ei berthynas waith dda dros y blynyddoedd diwethaf a pharhau i gydweithio a datblygu'r sylfeini a osodwyd gan y Cadeirydd blaenorol, y Cynghorydd Robert Smith, yr Aelod Cabinet newydd dros Addysg, Dysgu a Sgiliau.

Nododd fod yr adroddiad y cytunwyd arno yn y cyfarfod blaenorol ar Gefnogi Adferiad Addysg yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ddydd Iau 17 Mehefin 2021 gan y Cynghorydd Smith.

Cyfeiriodd at gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru a oedd yn hyrwyddo amcanion lles, a oedd i'w groesawu. Byddai hyn yn rhoi mwy o drosolwg a ffocws

cenedlaethol i'r pwnc. https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr

Amlinellodd fod y Panel Craffu Addysg wedi awgrymu y gallai'r pwyllgor ystyried y pwnc hyrwyddwyr/mentoriaid dysgu i'w adolygu yn ystod y flwyddyn ddinesig hon o bosib, a thrafodwyd hyn yn fyr yng nghyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn.

Nododd Helen Morgan-Rees y gallai'r pwnc fod yn werth ei archwilio a'i drafod gan Aelodau gan y gallai gyd-fynd â'r thema gyffredinol o adfer addysg yn dilyn COVID a thu hwnt.

Mae gwaith y cynllun adfer yn Abertawe a gynhwysir yn adroddiad y Cabinet y cyfeirir ato uchod yn cynnwys cyfeiriadau at yr amhariad ar ddysgu y mae pobl ifanc wedi'i ddioddef, sylfeini ansicr i ddysgu oherwydd tarfu ar ddarpariaeth ddysgu yn ystod y pandemig, diffyg dilyniant i ddysgwyr, a materion anghydraddoldeb gyda rhai pobl ifanc yn wynebu heriau a rhwystrau i ddysgu llawer mwy yn ystod COVID.

Nododd fod yr angen a'r ffyrdd posib o ailymgysylltu â dysgwyr yn y broses addysg yn dilyn COVID yn un a fyddai'n werth ei drafod a'i ddatblygu. Mae'r mater o sut y gellir cefnogi pobl ifanc yn well a hybu eu dyheadau, nid yn unig gan yr ysgol/rhieni/teuluoedd ac ati, ond gan y gymuned ehangach a phartneriaid amlasiantaethol amrywiol, yn un sy'n werth ei drafod. Gallai sefydlu mentor neu hyrwyddwr dysgu cymunedol fod yn adnodd gwerthfawr.

Dylid ceisio mewnbwn gan rai ysgolion sydd eisoes yn datblygu syniadau ar hyd y llinellau hyn, ynghyd â mewnbwn asiantaethau a phartneriaid allanol.

Trafododd yr Aelodau'r cynnig a nodwyd bod croeso hefyd i unrhyw syniadau neu bolisïau y gellir eu datblygu i atal pobl ifanc rhag cael eu dadrithio ac ysgogi eu diddordeb mewn dysgu a chyflawni, yn enwedig y disgyblion mwyaf agored i niwed. Nodwyd yn ystod COVID y dylid croesawu ac annog y pwysigrwydd y mae llawer o bobl ifanc yn ei roi ar addysg a dysgu.

Nododd y Cadeirydd fod angen i'r pwyllgor, lle y bo'n bosib, nodi unrhyw enghreifftiau o arfer da yn y maes hwn, yn lleol ac yn genedlaethol os yn bosib. Awgrymodd, yn dilyn argymhelliad gan yr Athro Alma Harris ym Mhrifysgol Abertawe, y dylai'r Pwyllgor gael tystiolaeth gan yr Athro Chris Chapman o Brifysgol Glasgow, a chyfeiriodd at ei waith a gydnabyddir yn fewnol ar "Gymdogaeth yr Alban" ac "Ecwiti ac Effeithiolrwydd Addysgol yn yr Alban".

Awgrymodd y Cadeirydd hefyd y byddai'r sefydliad camddefnyddio sylweddau o'r enw Barod yn grŵp defnyddiol i gael tystiolaeth ganddo ynghylch effeithiau camddefnyddio sylweddau ar bobl ifanc.

Nododd hefyd y byddai mewnbwn a chyflwyniadau gan Heddlu De Cymru a gwasanaeth ehangach yr Heddlu hefyd yn cael eu croesawu, yn enwedig o ran materion atal a chefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed rhag cymryd rhan yn y system cyfiawnder troseddol.

**Cytunwyd,** ymhellach i'r trafodaethau a'r awgrymiadau uchod, y bydd y Cadeirydd yn trafod â'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd ynghylch trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd nesaf ac yn y dyfodol, a bod yr agendâu'n cael eu cadarnhau yn amodol ar argaeledd yr unigolion a'r sefydliadau a nodir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.37 pm

**Cadeirydd**